| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau a Gytunwyd |
|---|---|---|---|
| 2/11/23 | Dim | **Presennol :** Y Dirprwy Faer Tony Parry, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh a Sion McGuiness.<br>Cyng Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd)<br>Huw Antur *(Clerc)* | **Trefniadau Sul y Cofio:**<br>Gwnaed trefniadau ar gyfer Sul y Cofio – trefniadau casglu a chario'r blodau a chlirio'r gofeb.<br>**Y Bala – Yma o Hyd:**<br>Cafwyd adroddiad o drafodaethau dathlu 700 mlynedd y dref. Trafodwyd i'r cyngor ganolbwyntio ar Domen y Bala, ac hefyd i drafod Cynllun Celf Canol Trefi hefo Cyngor Gwynedd.<br>**Nadolig 2023:** Adroddwyd fod trefniadau Goleuadau Nadolig a'r Gystadleuaeth Ffenestr Siop Nadolig ar y gweill.<br>**Cais Cynllunio – Adeiladu Tŷ ger Ffynnon Beuno:** Cytunwyd I ail fynegi pryderon y cyngor am y datblygiad oherwydd ei effaith bosibl ar fioamrywiaeth lleol ac ar safle archaelegol Ffynnon Beuno.<br>**Llwybrau Cyhoeddus:** Gofynnwyd I'r Pwyllgor Cyllid ystyried anghenion cynnal llwybrau am 2024, ac i gynnwys y gost yn y gyllideb ar gyfer 2024/2025.<br>**Ardal Ni:** Derbyniwyd rhestr o brosiectau cymunedol sydd ar y gweill yn y dref. Cytunwyd i ychwanegu Cynllun Tref y Bala a Chynllun Tref Gyfeillgar y Bala at y rhestr.<br>**Eisteddfod Powys:** Diolchwyd i bawb fu'n rhan o drefniadau Eisteddfod Powys yn y dref, a llongyfarchwyd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod ar eu gwaith. |